

Tocyn Crwydro Ffurflen Archebu

Strwythur Prisiau 202: – 2032

(Prisiau'n ddilys o 1 Ebrill 202: – 31 Mawrth 2032)

Categori Tocyn	Pris Manwerthu	Pris Marchnad	Nifer Tocynnau	Isgyfanswm
3 Diwrnod 1 Oedolyn (neu 1 plentyn*)	£23.10	£17.35		
3 Diwrnod 2 Oedolyn (neu 2 o blant*)	£35.70	£27.00		
3 Diwrnod Teulu (2 Oedolyn a'r plant i gyd+)	£47.25	£35.50		
7 Diwrnod 1 Oedolyn (neu 1 plentyn*)	£33.60	£25.20		
7 Diwrnod 2 Oedolyn (neu 2 o blant*)	£53.55	£40.20		
7 Diwrnod Teulu (2 Oedolyn a'r plant i gyd+)	£65.10	£48.85		
			Cyfanswm Cost:	

* Rhaid i blant o dan 16 oed fod gydag oedolyn bob amser

+ Hyd at 2 oedolyn a phlant/wyrion i gyd o dan 16 oed

Enw:

(print yn unig)

Cwmni:

Cyfeiriad:

Ffôn:

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y Telerau a'r Amodau atodedig cyn ei lofnodi.

Llofnod:

Dyddiad:

Archebion:

Holl brisiau'n cynnwys TAW

Tocynnau i'w cael gydag archeb gadarn yn unig

Archeb gwerth o leiaf £50.00

Tâl post a phecynnu am ddim

Rhaid talu gyda'r archeb

Anfonir Tocynnau Crwydro drwy ddanfoniad wedi'i gofnodi

Taliadau ac Ymholiadau:

Rhaid talu ymlaen llaw

at 00 44 (0)3000 257182.

E-bost: cadwcommercial@cymru.gsi.gov.uk

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Ein nod yw hyrwyddo gwaith cadwraeth ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru a gwerthfawrogiad ohono.

Cadw is the Welsh Government's historic environment service. Our aim is to promote the conservation and appreciation of Wales's historic environment.

Telerau ac Amodau Gwerthiant

I. Dehongliad

1.1 Yn yr Amodau hyn (ac eithrio pan fo'r cynnwys yn anghyson gyda hynny):— bydd gan y geiriau a'r cymalau canlynol yr ystyron canlynol:—

'golyga'r 'Prynwr' y person lle mae ei archeb am y Nwyddau yn cael ei dderbyn gan y Gwerthwr golyga 'Yr Amodau', delerau ac amodau safonol y gwerthiant fel y nodir hwy yn y ddogfen hon, yn cynnwys unrhyw delerau ac amodau arbennig gytunwyd yn ysgrifenedig rhwng y Prynwr a'r Gwerthwr

golyga 'y Contract', y contract am brynu a gwerthu Nwyddau sy'n ddarostyngedig i'r Amodau, fydd yn cael ei wneud pan fydd yr Archeb yn cael ei derbyn gan y Gwerthwr

golyga 'y Nwyddau', y Nwyddau fydd y Gwerthwr yn ei gyflenwi yn unol â'r Amodau hyn, fel y gwelir hwy yn yr Archeb atodedig

mae 'yn ysgrifenedig' yn cynnwys trawsyriant ffacs neu gyfathrebwr electronig neu unrhyw ddull cyffelyb arall o gyfathrebu ysgrifenedig

golyga 'yr Archeb' ddisgrifiad o faint yr archeb, a gwybodaeth arall a wnelo â'r Nwyddau, fel y gwelir hwy drosodd

golyga 'y Gwerthwr', Llywodraeth Cymru, gyda'r cyfeiriad wedi ei leoli ym Mharc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

1.2 Mae cyfeirio at bersonau yn cynnwys cyrff corfforaethol a chymdeithasau anghorfforedig, a phartneriaethau, a bydd geiriau'n golygu'r unigol yn cynnwys y lluosog hefyd, ac fel arall, a bydd geiriau'n golygu un rhyw yn cynnwys pob rhyw.

1.3 Bydd cyfeiriad at ofyniad statudol yn cael ei ddehongli i gynnwys cyfeiriad at:—

1.3.1 Unrhyw gadarnhad o addasiad statudol, neu ailddeddfiad o'r amod statudol hwnnw sydd mewn grym ar y pryd.

1.3.2 Holl offerynnau statudol neu orchmynion wnaed yn unol â'r amod statudol hwnnw.

1.3.3 Unrhyw ofynion statudol lle mae'r amod statudol hwnnw yn addasiad neu gadarnhad.

1.4 Mae'r penawdau ar gyfer cyfeirio hawdd yn unig, a gan hynny, ni fyddant yn effeithio ar ddehongliad unrhyw ofyniad.

1.5 Bydd rhaid i gyfeiriad at unrhyw arian cenedlaethol (neu unrhyw uned ohono) o aelod-wladwriaeth o'r Gymuned Ewropeaidd ("Aelod-Wladwriaeth"), pe byddai'r aelod-wladwriaeth (ar y cychwyn neu'n ddilynol) yn dod yn aelod cyfrannog o arian sengl ("Yr Ewro" neu'r "Ewros") gael ei ystyried i gynnwys cyfeiriadau at yr Ewro (neu unrhyw uned ohono), wedi ei drosi yn ôl cyfradd trosiad sefydlog i Ewros, ar gyfer pob arian cyfrannog a gadarnhawyd gan Gyngor y Gweinidogion.

1.6 Pe byddai'r arian cenedlaethol yn peidio â bod yn arian cyfreithlon o fewn y Gymuned Ewropeaidd, bydd yn rhaid i'r Ewro, (neu unrhyw uned ohono) gael ei ystyried yn amnewid yn ei le, wedi'i gyfrifo ar y raddfa trosi sefydlog ddywededig.

2. Sail y Gwerthiant

2.1 Bydd rhaid i'r Gwerthwr werthu, a'r Prynwr brynu'r Nwyddau yn unol â'r Archeb, yn ddarostyngedig mewn unrhyw achos i'r Amodau hyn, fydd yn rheoli'r Contract ar draul unrhyw amodau a thelerau eraill.

2.2 Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Amodau hyn yn orfodol, oni bai iddo gael ei gytuno'n ysgrifenedig rhwng cynrychiolwyr awdurdodedig y Prynwr a'r Gwerthwr.

2.3 Bydd unrhyw wall argraffyddol, clerigol neu wall arall neu hepgoriad yn yr Archeb, neu unrhyw restr ddyfynbris, derbyniad cynnig, anfoneb neu unrhyw lenyddiaeth ddogfennol neu wybodaeth a ddyrennir gan y Gwerthwr, yn ddarostyngedig i gywiriad heb atebolrwydd ar ran y Gwerthwr.

3.Archebion

3.1 Ni fydd Archeb a gyflwynir gan y Prynwr, yn cael ei hystyried wedi ei derbyn gan y Gwerthwr oni bai, a hyd nes ei chadarnhau yn ysgrifenedig gan gynrychiolydd awdurdodedig y Gwerthwr.

3.2 Bydd y Prynwr yn gyfrifol i'r Gwerthwr am sicrhau cywirdeb telerau'r Archeb, yn cynnwys maint y Nwyddau archebwyd. Bydd rhaid i bob Archeb fod o leiaf £50 mewn gwerth.

3.3 Ni ellir canslo unrhyw Archeb gan y Prynwr ac eithrio gyda chytundeb ysgrifenedig y Gwerthwr.

4. Prisiau Nwyddau

4.1 Pris y Nwyddau fydd y pris a ddyfynnwyd i'r Prynwr gan y Gwerthwr, yn, neu ar adeg yr Archeb.

4.2 Bydd y Gwerthwr yn cadw'r hawl i hysbysu'r Prynwr yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg cyn y trosgludo, i godi pris y Nwyddau, i adlewyrchu unrhyw godiad yn y pris i'r Gwerthwr; oherwydd unrhyw ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Gwerthwr; (megis, heb gyfyngiadau, unrhyw amrywiad i arian cyfnewid dramor; rheoliadau ariannol, newidiadau tollau, cynnydd sylweddol ym mhrisiau llafur, deunyddiau, neu gostau cynhyrchu eraill).

4.3 Bydd pris y Nwyddau yn cynnwys unrhyw dreth ar werth perthnasol y bydd y Prynwr yn atebol i'w dalu'n ychwanegol i'r Gwerthwr. Ni chodir tâl ar y Prynwr am gost cludiant a phecynnu'r Nwyddau a brynwyd.

5.Telerau Talu

5.1 Yn amodol ar unrhyw delerau arbennig a gytunwyd yn ysgrifenedig rhwng y Prynwr a'r Gwerthwr, bydd y Prynwr yn talu pris y Nwyddau pan wneir yr Archeb, er efallai nad yw'r trosgludo wedi digwydd a'r eiddo yn y Nwyddau heb eu trosglwyddo i'r Prynwr.

5.2 Bydd amser taliad y pris yn hanfodol i'r Contract.

5.3 Rhoddir derbynebau am daliadau ar gais yn unig.

6.Trosgludo

6.1 Bydd pob Archeb yn cael ei dosbarthu i'r Prynwr drwy ddanfoniad wedi'i gofnodi.

6.2 Bydd unrhyw ddyddiad a ddyfynnir i drosgludo'r Nwyddau yn frasamcan yn unig, ac ni fydd y Gwerthwr yn atebol am unrhyw oediad yn nhrosgludiad y Nwyddau am ba reswm bynnag, fel NA FYDD amser trosgludo yn hanfodol, oni bai bod hynny'n gytunedig gan y Gwerthwr yn ysgrifenedig cyn hynny, a gall y Nwyddau gael eu trosgludo gan y Gwerthwr cyn y dyddiad trosgludo a ddyfynnwyd, o roi rhybudd rhesymol i'r Prynwr.

6.3 Gall y Gwerthwr ddewis canslo neu atal (neu atal a chanslo'n ddiweddarach) pob trosgludiad pellach o dan y Contract, os bydd y Prynwr yn methu gwneud y taliad sy'n ddyledus trwy hyn, neu o dan unrhyw gontract rhwng y Gwerthwr a'r Prynwr.

6.4 Bydd gan y Gwerthwr hawl i drosgludo Nwyddau mewn un neu fwy trosglwyddiad, oni bai bod cytundeb arbennig fel arall.

7. Risg ac Eiddo

7.1 Bydd risg difrod i, neu golled o'r Nwyddau, yn cael ei drosglwyddo i'r Prynwr ar adeg y trosgludo, neu, os bydd y Prynwr, ar gam, yn methu derbyn y Nwyddau a drosgludir ar yr adeg pan fydd y Gwerthwr wedi gwneud cynnig i drosgludo'r Nwyddau.

7.2 Ni fydd y Gwerthwr yn atebol am unrhyw golled o unrhyw fath i'r Prynwr; oherwydd unrhyw ddifrod i, neu golled o'r nwyddau, sut bynnag yr achoswyd, pan fydd y risg wedi ei drosglwyddo i'r Prynwr; ac ni fydd atebolrwydd y Prynwr i'r Gwerthwr yn lleihau nac yn cael ei ddileu oherwydd y golled honno.

7.3 Er gwaethaf rhoi a throsglwyddo'r risg yn y Nwyddau, neu unrhyw ofyniad arall yr Amodau hyn, ni fydd yr eiddo yn y Nwyddau yn cael ei drosglwyddo i'r Prynwr nes i'r Gwerthwr dderbyn arian neu daliad arian llawn wedi'i glirio am y Nwyddau, a phob swm arall sy'n ddyledus gan y Prynwr i'r Gwerthwr; lle bydd y taliad yn ddyledus.

8. Gwarantau ac Atebolrwydd

8.1 Ni fydd y Gwerthwr yn atebol i'r Prynwr; neu'n cael ei ystyried yn torri'r Contract oherwydd oedi mewn perfformiad, neu fethu cyflawni ymrwymïadau'r Gwerthwr o ran y Nwyddau, os bydd yr oedi neu'r methiant oherwydd achos sydd tu hwnt i reolaeth resymol y Gwerthwr; OS, heb ragfarn i gyffredinolrwydd y blaenorol, bydd y canlynol yn cael eu hystyried yn achosion y tu hwnt i reolaeth resymol y Gwerthwr:—

8.1.1 Gweithred gan Dduw – ffrwydradau, llifogydd, tystestl, tân neu ddamwain.

8.1.2 Rhyfel, neu fygythiad o ddifrod rhyfel, terfysg, aflonyddwch sifil neu feddiant gorfodol.

8.1.3 Deddfau, cyfyngiadau, rheoliadau, is-ddeddfau, gwaharddiadau, neu fesur o unrhyw fath gan y llywodraeth seneddol neu awdurdod lleol.

8.1.4 streiciau, cloi-allan neu weithredu diwydiannol arall, neu anghydfod undebol (pa un ai'n ymwneud â gweithwyr y Gwerthwr neu drydydd parti).

8.1.5 anawsterau cael defnyddiau crai, llafur, tanwydd, darnau neu beiriannau.

8.1.6 toriad pŵer neu beiriannau'n torri i lawr.

9. Cyffredinol

9.1 Rhaid i unrhyw rybudd, sydd ei angen neu i'w ganiatáu, a roir gan y naill barti i'r llall, o dan yr Amodau, fod wedi ei gyfeirio'n ysgrifenedig i'r parti arall hwnnw yn ei swyddfa gofrestredig, neu brif gyfeiriad y busnes neu unrhyw gyfeiriad arall sydd wedi cael hysbysiad ysgrifenedig yn yr amser perthnasol, yn unol â'r amod hwn, i'r parti sy'n rhoi'r rhybudd.

9.2 Ni ystyrir ildiad hawl gan y Gwerthwr am unrhyw dor-Contract gan y Prynwr; fel ildiad tor-Contract dilynol tebyg nac unrhyw amod arall.

9.3 Pe byddai unrhyw ofynion yn yr Amodau a/neu fod y Contract yn cael ei gadw gan unrhyw awdurdod cymwys, yn annilys neu'n anorfodadwy, yn gyfan neu'n rhannol, ond y bydden nhw'n ddilys ac yn orfodadwy pe byddai rhan o'r geiriad wedi ei ddileu, byddai'r gofynion dywededig, yn cael eu hystyried yn weithredol gydag addasiadau o'r fath fel bo'r angen, er mwyn eu gwneud yn ddilys a

gorfodadwy, ac na ddylai unrhyw addasiad effeithio ar ddilysrwydd gofynion eraill yr Amodau hyn a/neu'r Contract, ac na fyddai gweddill y gofynion dan sylw'n cael eu heffeithio gan hyn.

9.4 Bydd unrhyw anghydfod neu anghytundeb sy'n codi neu'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn, yn cael ei gyfeirio at gymrodeddu gan un cyflafareddwr, i'w benodi yn unol ag adran 16(3) Deddf Cymrodeddu 1996 ("y Ddeddf"), a Chaerdydd Cymru fydd safle cymrodeddu o'r fath.

9.5 Pe byddai un o'r partïon yn methu'r apwyntiad yn unol ag adran 16(3) o'r Ddeddf, bydd yr apwyntiad yn cael ei wneud gan Lywydd presennol y Sefydliad Siartredig Cymrodeddwyr.

9.6 Ystyrir cychwyn cymrodeddu yn unol ag adran 14(1) y Ddeddf, pan fydd un parti'n anfon rhybudd i'r llall yn unol â Chymal 11.1 y Cytundeb hwn.

9.7 Y Cyflafareddwr fydd yn penderfynu'r anghydfod yn unol â chyfreithiau hawliau Cymru a Lloegr.

10. Cyfraith Briodol

Bydd y Contract yn cael ei reoli gan, a'i ddehongli yn unol â deddfau Cymru a Lloegr.

11. Aseinïad

Ni fydd y Prynwr yn aseinio unrhyw fudd o dan y Contract heb ganiatâd ysgrifenedig y Gwerthwr, ac ni fydd yn cael ei atal yn afresymol.

12. Hawliau Trydydd Parti

Ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn creu hawliau i drydydd parti o dan y Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999. Ni fydd amrywiad i'r Cytundeb na chytundebau atodol nag ategol i'r Cytundeb hwn yn creu hawliau o'r fath, oni bai ei fod yn cael ei ddatgan yn glir mewn cytundeb o'r fath gan y Partïon. Nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi trydydd parti sy'n bodoli neu sydd ar gael, ar wahân i'r Ddeddf honno.

13. Gwahardd Gwasanaethau Eraill

Ni fydd amodau na thelerau eraill (p'un ai'n gynnwysedig mewn unrhyw ddogfen a roddir gan y Prynwr neu mewn unrhyw gyfathrebu ysgrifenedig neu ar lafar rhwng y partïon) yn gymwys i'r Contract, ac ni ellir amrywio'r Amodau heb gytundeb ysgrifenedig y Gwerthwr.